



Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

National Botanic Garden of Wales

Safonau'r Iaith Gymraeg
Adroddiad Blynyddol 2024-25

Welsh Language Standards
Annual Report 2024-25

| Cynnwys | | | Contents | | |
|----------------|---|----|-----------------|---|----|
| 1 | Cyflwyniad | 1 | 1 | Introduction | 1 |
| 2 | Safonau Darparu Gwasanaeth | 1 | 2 | Service Delivery Standards | 1 |
| 3 | Safonau Llunio Polisi | 5 | 3 | Policy Making Standards | 5 |
| 4 | Safonau Gweithredu | 5 | 4 | Operational Standards | 5 |
| 5 | Sgiliau yn y Gymraeg: Gweithwyr | 9 | 5 | Welsh Language Skills: Employees | 9 |
| 6 | Sgiliau yn y Gymraeg: Swyddi Newydd a Rhai Gwag | 10 | 6 | Welsh Language Skills: New and Vacant Posts | 10 |
| 7 | Cynnal Hyfforddiant Staff yn Gymraeg | 10 | 7 | Staff Training Conducted in Welsh | 10 |
| 8 | Gwybodaeth Bellach | 10 | 8 | Further Information | 10 |

| | |
|---|---|
| <p>1 Cyflwyniad</p> <p>Mae Adran 44 o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod ar Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (“yr Ardd”) ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau’r Iaith Gymraeg fel maent wedi eu gosod allan yn ei Hysbysiad Cydymffurfio.</p> <p>Mae’r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025 (h.y. blwyddyn ariannol 2024-25) ac mae ei gynhyrchu yn un o ofynion Safonau’r Iaith Gymraeg.</p> <p>Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi ymrwymo’n llwyr i ddefnyddio a hyrwyddo’r Gymraeg, a pholisi’r Ardd yw na ddylai’r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na’r iaith Saesneg.</p> | <p>1 Introduction</p> <p>Section 44 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 confers on the National Botanic Garden of Wales (“the Garden”) a duty to comply with Welsh Language Standards as set out in its Compliance Notice.</p> <p>This report covers the period 1st April 2024 through to 31st March 2025 (i.e. the 2024-25 financial year) and its production is a requirement of the Welsh Language Standards.</p> <p>The National Botanic Garden of Wales is fully committed to using and promoting the Welsh language, and it is the policy of the Garden that Welsh should not be treated less favourably than English.</p> |
| <p>2 Safonau Darparu Gwasanaeth</p> <p><i>Cafwyd un cwyn yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â’n cydymffurfiant â’r Safonau Darparu Gwasanaeth.</i></p> <p>Polisi’r Ardd yw i bob aelod staff newydd fynd i sesiwn briffio ar y Safonau Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr yn gyfarwydd â’r gofynion i ddefnyddio, hwyluso a hyrwyddo’r iaith. Anfonir negeseuon e-bost at yr holl aelodau staff o bryd i’w gilydd i’w hatgoffa am agweddau penodol ar y Safonau, a chaiff gwirfoddolwyr hefyd sesiynau briffio gan aelod o’r staff. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cyflwyniad gan Swyddog y Gymraeg am y Gymraeg mewn Fforwm Staff a hefyd mewn cyfarfod o’r Ymddiriedolwyr.</p> <p>Mae neges atgoffa fod gan ymwelwyr hawl i gael siarad â siaradwr Cymraeg rhugl os ydynt yn dymuno yn eitem sefydlog</p> | <p>2 Service Delivery Standards</p> <p><i>One complaint was received during the year relating to our compliance with the Service Delivery Standards.</i></p> <p>The Garden’s policy is that new members of staff attend a briefing on the Welsh Language Standards in order to ensure that all employees are familiar with the requirements to use, facilitate the use of, and promote the language. E-mails are sent to staff members from time-to-time, reminding them of specific aspects of the Standards, and volunteers are also briefed by a member of staff. During the year the Welsh Language Officer made presentations on the Welsh language at a Staff Forum and also at a meeting of the Trustees.</p> <p>A reminder that visitors to the Garden have the right to speak with a fluent Welsh speaker if they so wish is a standing item on the Garden’s weekly Operations meetings. A list of staff fluent in Welsh is</p> |

yng nghyfarfodydd Gweithrediadau wythnosol yr Ardd. Mae rhestr o siaradwyr Cymraeg rhugl ar gael ar Fewnrwyd y Staff.

Gohebiaeth

Rydym yn ymdrechu i gofnodi dewis iaith pobl y byddwn yn cyfathrebu â nhw yn ein system TG. Pan fydd pobl yn dweud wrthym eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn ceisio anfon gohebiaeth yn Gymraeg yn unig; pan fydd pobl yn dewis Saesneg, neu pan na fyddwn yn gwybod beth yw eu dewis, byddwn yn anfon gohebiaeth ddwyieithog.

Teleffon

Mae'r Ardd yn cyfarch yn Gymraeg ac yna yn Saesneg ar ei phrif rif teleffon, a pholisi'r Ardd yw i staff gyfarch galwyr yn Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg. Pan fydd galwyr yn dymuno cynnal eu sgwrs yn Gymraeg, polisi'r Ardd yw hwyluso gwneud hynny. Rydym yn cadw rhestr o siaradwyr Cymraeg rhugl ar ein Mewnrwyd i helpu dod o hyd i siaradwr Cymraeg os bydd angen.

Mae'r neges ar ein prif deffon ateb yn ddwyieithog, a'r Gymraeg yn dod cyn y Saesneg. Gobeithiwn symud i system a fydd yn caniatu i ddefnyddwyr ddewis yr iaith y dymunant ei chlywed, gan ganiatau darparu mwy o wybodaeth ar neges y teleffon ateb.

Caiff dewisiadau iaith eu storio yn ein system TG, a byddwn yn ffonio pobl yn eu dewis iaith lle bydd hynny wedi ei gofnodi. Lle na fydd hynny wedi ei gofnodi, byddwn yn gofyn i bobl ar y teleffon a ydynt yn dymuno cael galwadau teleffon yn Gymraeg ynte yn Saesneg.

held on the Staff Intranet.

Correspondence

We endeavour to record the language preference of people with whom we communicate in our IT system. Where people tell us they wish to use Welsh, we try to send out correspondence only in the Welsh language; where people opt for English, or where we do not know the preference, we send out bilingual correspondence.

Telephone

The Garden uses greetings in both Welsh, and then English, on its main telephone number, and it is the policy of the Garden for staff to greet callers using Welsh first, and then English. Where callers wish to conduct their call in Welsh, it is the Garden's policy to facilitate this. We maintain a list of fluent Welsh speakers on our Intranet to help staff locate a Welsh speaker if required.

The message on our main answer phone is bilingual, with Welsh coming before English. We hope to move to a system that will allow users to select the language they wish to hear, allowing more information to be provided on the answer phone message.


Language preferences are stored in our IT system, and we will telephone people in their preferred language where it is recorded. Where it is not recorded we will ask people we phone whether they would prefer telephone calls in Welsh or in English.

Cyfarfodydd a Digwyddiadau

Mae'r Ardd yn croesawu ac yn annog defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yn unol â'r Safonau Lle byddwn yn trefnu arddangosfeydd, bydd yr holl ddefnydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, a lle byddwn yn trefnu digwyddiadau i bobl eraill, rydym yn annog y sefydliadau trydydd parti hynny i ddefnyddio'r Gymraeg.

Dogfennau a Ffurflenni

Mae'r holl ddogfennau a'r ffurflenni a grëir gennym yn benodol i'w defnyddio gan ein hymwelwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd naill ai'n ddwyieithog neu ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Lle caiff fersiynau eu paratoi ar wahân, rydym wedi creu ffeiliau llun y gellir eu gosod ar glawr y fersiwn Saesneg i ddangos bod fersiwn Gymraeg ar gael. Byddwn yn ceisio sicrhau bod hyn yn digwydd bob amser drwy archwilio dogfennau'n rheolaidd a thrwy anfon nodyn atgoffa at staff.

Mae fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon ar gael 

Y wefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Mae pob tudalen ar wefan yr Ardd yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda dolen ar bob tudalen sy'n newid rhwng y ddwy iaith. Mae rhai hen flogiau sydd wedi eu hysgrifennu gan aelodau o'r staff yn iaith/ieithoedd yr awdur yn unig, ond mae blogiau diweddarach yn ymddangos yn ddwyieithog.


Mae pob neges ar y cyfryngau cymdeithasol o gyfrifon swyddogol yr Ardd Fotaneg yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fyddwn yn ymateb i unrhyw neges, gwnawn hynny yn iaith y sawl sy'n anfon y sylw neu'r cwestiwn.

Meetings and Events

The Garden welcomes and encourages the use of Welsh at meetings and events in line with the Standards. Where we stage exhibitions, all materials will be in Welsh as well as English, and where we host events for others we will encourage those third-party organisations to use Welsh.

Documents and Forms

All documents and forms that we create specifically for use by our visitors and other members of the public are either bilingual or exist as separate Welsh and English versions. Where separate versions are produced, we have created image files that can be placed on the cover of the English version to indicate that a Welsh version is available. We try to ensure that this always happens by carrying out regular checks of documents and by sending out reminders to staff.

Mae fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon ar gael 

Website and Social Media

Every page of the Garden's website is in Welsh and English, with a link on every page that switches between the two languages. Some older blogs written by staff members are only in the language(s) of the author, but more recent blogs are posted bilingually.

All posts on social media feeds from official Botanic Garden accounts are in Welsh and English. When we respond to any post, we do it in the language of the person posting the comment or question.

Arwyddion a Hysbysiadau

Drwy gyfrwng proses gynefino'r Ardd, bydd yr holl staff yn ymwybodol o'r gofyniad i arwyddion a hysbysiadau yn yr Ardd (ac eithrio rhai arwyddion gwyddonol) fod yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'r Gymraeg yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf. Caiff y staff i gyd yr awdurdod i symud arwyddion sy'n torri'r Safonau (lle nad oes perygl i iechyd a diogelwch) a/neu i roi gwybod am arwyddion i'r aelod staff perthnasol er mwyn eu cywiro.

Derbyniad

Mae arwydd dwyieithog yn y Porthdy yn annog ymwelwyr i siarad Cymraeg yn yr Ardd, p'un a ydynt yn rhugl neu'n ddysgwyr, a disgwylir i'r staff sy'n siarad Cymraeg wisgo bathodynau neu rubanau i ddangos hynny.

Caiff staff yn y Porthdy a manau eraill sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd eu hannog i gyfarch yn ddwyieithog, ac i siarad yn Gymraeg ag ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg. Er mwyn annog ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg, rydym wedi gosod arwyddion "Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg" yn y derbynfeydd a'r caffis, ac wedi gadael y posteri "Defnyddia dy Gymraeg" o'r ymgyrch hydref 2024 Comisiynydd y Gymraeg yn eu lle.

Tendrau

Mae gwasanaethau cyfieithu proffesiynol ar gael i'r holl staff, sy'n golygu bod dogfennau tendro ar gael yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Mae'r staff i gyd yn cael gwybod am y gofynion drwy hyfforddiant cynefino rheolaidd.

Signs and Notices

Through the Garden's staff induction process, all staff are aware of the requirement for signs and notices in the Garden (except some scientific signs) to appear in Welsh and English, with the Welsh likely to be read first. All staff are given the authority to remove signs that are in breach of the Standards (where there is not a risk to health and safety) and/or report signs to the relevant member of staff for correction.

Reception

A bilingual sign in the Gatehouse encourages visitors to speak Welsh in the Garden, whether they are fluent or a learner and Welsh-speaking staff are expected to wear badges or lanyards that identify them as such.

Staff in our Gatehouse and other public-facing areas use bilingual greetings, and will speak Welsh to Welsh-speaking visitors. To encourage visitors to use their Welsh, we have placed "Dechreuwch pob sgwrs yn Gymraeg" ("Begin every conversation in Welsh") signs in receptions and cafés, and left "Defnyddia dy Gymraeg" ("Use your Welsh") posters from the Welsh Language Commissioner's campaign in autumn 2024 in situ.

Tenders

Access by all staff to professional translation services means that tender documents are available in Welsh as well as English. All staff are made aware of the requirements through induction training and regular reminders.

Cyrsiau addysg

Mae'r Ardd o hyd yn edrych am gyfleoedd i wella'i dewis o gyrsiau a digwyddiadau yn Gymraeg. Lle gall cyrsiau gael eu cynnig yn Saesneg yn unig, bydd defnydd hyrwyddo bob amser yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, a gall defnyddiau rhai cyrsiau fod yn Gymraeg hefyd.

3 Safonau Llundio Polisi

Ni chawsom ddim cwynion yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r safonau llunio polisi

Mae'r Ardd yn cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb a dyletswydd i hyrwyddo'r Gymraeg, a byddwn yn ystyried sut y gellir cefnogi'r iaith drwy ein penderfyniadau polisi. Byddwn yn sicrhau bod holl aelodau uwch y staff yn cydnabod bod angen iddynt ystyried sut y gall eu penderfyniadau effeithio ar yr iaith, ac edrych am gyfleoedd i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn yr Ardd.

Wrth wneud gwaith ymchwil, neu wrth ymgynghori am ein cynlluniau, byddwn yn gofyn am farn sut y gallai hyn effeithio ar yr iaith Gymraeg, a ble gallai cyfleoedd fod i wella defnyddio'r Gymraeg yn yr Ardd.

4 Safonau Gweithredu

Ni chawsom ddim cwynion yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r safonau llunio polisi.

Drwy sesiynau cynefino i aelodau newydd y staff, a negeseuau atgoffa rheolaidd am agweddau penodol ar y Safonau, rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu.

Education courses

The Garden is constantly looking for opportunities to improve its offer of courses and events through the medium of the Welsh language. Where courses can only be offered in English, promotional literature will always be in Welsh as well as English, and some course materials may be in Welsh, also.

3 Policy Making Standards

We received no complaints relating to the policy-making standards during the year.

The Garden recognises it has a responsibility and a duty to use and promote the Welsh language, and we consider how the language can be supported through our policy decisions. All senior members of staff recognise the need to consider how their decisions may impact on the language, and to look for opportunities to promote the use of Welsh in the Garden.

When we undertake research, or when we consult on our plans, we seek views on how use of the Welsh language might be affected and where there might be opportunities for improving the use of the Welsh language in the Garden.

4 Operational Standards

No complaints were received during the year in relation to the operational standards.

Through the induction of new members of staff, and regular reminders on specific aspects of the Standards, we ensure that we are compliant with the operational standards.

Rydym hefyd yn cymryd rhan weithgar yn Diwrnod Hawliau, sy'n gyfle i atgoffa ein staff am eu hawliau mewn cysylltiad â'r Gymraeg wrth weithio yn yr Ardd.

Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol

Mae polisi'r Ardd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn gosod allan hawliau gweithwyr o ran yr iaith Gymraeg a'r ffordd mae'r Ardd yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith yn y gweithle.

Fel cyflogwr, mae'r Ardd yn falch annog defnyddio'r Gymraeg, ac mae wrth ei bodd gweld a chlywed gweithwyr, dysgwyr yn ogystal â phobl sy'n siarad yr iaith yn rhugl yn siarad Cymraeg o gwmpas yr Ardd.

Gweithwyr

Gall staff ofyn am gael eu contract cyflogaeth a dogfennau personol eraill yn ymwneud â'u cyflogaeth yn Gymraeg.

Caiff rhywfaint o hyfforddiant lechyd a Diogelwch mewn adrannau ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mai yn Saesneg y caiff cyrsiau gloywi blynyddol mewn lechyd a Diogelwch eu darparu ar hyn o bryd.

Polisiâu'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg

Mae Llawlyfr Gweithwyr yr Ardd ar gael fel dogfen ddwyieithog, ac mae rhai polisiâu ar wahân yn gysylltiedig â chyflogaeth hefyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

We also take an active part in Diwrnod Hawliau (Welsh Language Rights Day) which provides an opportunity to remind our staff of their rights with respect to the Welsh language whilst working at the Garden.

Policy on using Welsh internally

The Garden's policy on the use of Welsh internally sets out employees' rights with regard to the Welsh language and how the Garden supports and promotes the language within the workplace.

As an employer, the Garden is proud to encourage the use of the Welsh language, and is pleased to see and hear employees, learners as well as fluent speakers, using Welsh around the Garden.

Employees

Staff may request their contract of employment and other personalised documents relating to their employment in Welsh.

Some department-based Health and Safety training is delivered through the medium of Welsh although annual Health and Safety refresher courses are currently delivered in English.

Policies published in Welsh

The Garden's Employee Handbook is available as a bilingual document, and some separate employment-related policies are also available in both Welsh and English.

Cwynion staff/disgyblu

Gall staff gyflwyno cwynion, ac ymateb i unrhyw gŵyn a wneir amdanynt, yn Gymraeg. Bydd gwrandawiadau disgyblu a'r holl brosesau cysylltiedig yn cael eu cynnal yn Gymraeg os dyna ddymuniad yr aelod staff dan sylw.

Meddalwedd

Mae gan yr Ardd drwydded i'r safle cyfan ar gyfer meddalwedd Cysgliad i staff ei ddefnyddio i wirio cywirdeb gramadegol dogfennau a ysgrifennir yn Gymraeg.

Datblygu sgiliau yn y Gymraeg

Caiff cyrsiau Cymraeg Gwaith ar-lein eu cynnig i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr. Caiff staff sy'n siarad Cymraeg eu hannog i siarad Cymraeg â'r rheiny sy'n ceisio dysgu'r iaith, a chaiff dysgwyr eu hannog i ymarfer gyda'i gilydd a chydweithwyr sy'n rhugl. Bydd grŵp o blith y staff a gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cyfarfod bob wythnos i ymarfer eu Cymraeg, ac mae cyfres o ymadroddion i gychwyn sgwrs hefyd wedi eu hysgrifennu i'r staff sy'n dysgu'r iaith. Defnyddir mewnrwyd y staff i hyrwyddo cyrsiau Cymraeg ar gyfer staff ac i ddarparu cronfa o ffynonellau dysgu.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff fynd i sesiwn ymwybyddiaeth ar y Safonau Iaith Gymraeg; mae'r cwrs hwn yn rhan o'r broses gynefino i holl aelodau staff newydd yr Ardd.

Llofnodion e-bost, atebion allan o'r swyddfa

Mae'n ofynnol i'r holl staff ddefnyddio llofnod e-bost dwyieithog, ac i ddefnyddio delwedd ar waelod eu neges sy'n dweud bod yr Ardd yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

Staff complaints/disciplinary

Staff may make complaints, and respond to any complaint made about them, in Welsh. Disciplinary hearings and all related processes will be conducted in Welsh if that is the wish of the member of staff concerned.

Software

The Garden has a site-wide licence of Cysgliad software for staff to use in order to check the grammar of documents written in Welsh.

Developing Welsh language skills

On-line Work Welsh courses are offered to all staff and volunteers. Welsh speaking staff are encouraged to speak Welsh with those who are trying to learn the language, and learners are encouraged to practise with each other and with colleagues who are fluent. A group of staff members and volunteers who are learning Welsh meet each week to practise their Welsh, and a series of conversation starters have also been written for staff who are learning the language. The staff intranet is being used to promote Welsh language courses to staff and to provide a bank of learning resources.

All members of staff are required to attend a Welsh Language Standards awareness session; this course forms part of the induction process of all new members of staff at the Garden.

E-mail signatures, out of office replies

All staff are required to use a bilingual e-mail signature, and to use an image that says that the Garden welcomes correspondence in Welsh at the bottom of their e-mails.

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg; byddwn yn ymateb yn Gymraeg, ac ni fydd hynny'n arwain at oedi.
You are welcome to write to us in Welsh; we will respond in Welsh and there will be no delay.



Mae cronfa o ymadroddion dwyieithog ar gael i'r staff i'w helpu gyda'u llofnodion e-bost ac i ddefnyddio negeseuau e-bost allan-o'r-swyddfa.

Recriwtio

Caiff pob swydd wag ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac anfonir yr holl fanylion am swyddi gwag at ymgeiswyr yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn dweud y gellir anfon ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall.

Cyn hysbysebu pob swydd wag, caiff y gofyniad sgiliau Cymraeg ei asesu. Ym Manylion y Person ar gyfer pob swydd, caiff rhuglwydd mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar ei asesu fel hanfodol, angen dysgu sgiliau, ddymunol neu angenrheidiol.

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd proses i gynorthwyo staff nid yn unig i gategoreiddio gofynion iaith yn gyson, ond hefyd i wneud hynny ar draws gwahanol sgiliau a lefelau iaith — er enghraifft, Cymraeg ffurfiol ysgrifenedig a Chymraeg llafar sgwrsio. Defnyddir y broses hon bellach wrth lunio manylebau person cyn hysbysebu swydd, er mwyn sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r unigolyn gorau posib ar gyfer pob swydd wag yn yr Ardd Fotaneg.

Gofynnir i staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau'n ymwneud â chyflogaeth yn Gymraeg ynte yn Saesneg.

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg; byddwn yn ymateb yn Gymraeg, ac ni fydd hynny'n arwain at oedi.
You are welcome to write to us in Welsh; we will respond in Welsh and there will be no delay.



A bank of bilingual phrases is available to staff to help them with their e-mail signatures and to use bilingual out-of-office e-mail messages.

Recruitment

All job vacancies are advertised in both Welsh and English, and all details of vacant posts are sent to applicants in both languages. We state that applications may be made in either language.

Before each vacancy is advertised, the requirement for Welsh language skills is assessed. In the Person Specification of each post, fluency in written and spoken Welsh is rated as either essential, needs to be learnt, desirable or not required.

During the year, a process was developed to aid staff to not only categorise language requirements consistently, but to do so on different language skills and levels, for example formal written Welsh and conversational spoken Welsh. This process is now used when drawing up person specifications before a job is advertised to ensure we find the best possible fit for every vacancy in the Botanic Garden.

New staff are asked whether they wish to receive employment-related documentation in Welsh or English.

Arwyddion Mewnol

Lle byddwn yn gosod arwyddion yn y gweithle ar gyfer staff, mae'r rhain yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, a'r Gymraeg yn cael ei gosod fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf.

5 Sgiliau Cymraeg: Gweithwyr

Yn unol â'r Safonau, gofynnwyd i'r staff asesu eu gallu wrth siarad, gwranddo, dalen ac ysgrifennu Cymraeg gan ddefnyddio Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd. Mae crynodeb o'r canlyniadau a gyflwynwyd, wedi eu pwysoli yn ôl yr oriau a weithiwyd, i'w gweld yn y tabl isod.

A1 yw'r lleiaf rhugl, C2 y mwyaf rhugl.

Seiliwyd y canlyniadau ar ymatebion 58 o aelodau staff ar gontract, wedi'u pwysoli yn ôl nifer yr oriau a weithiwyd. Er bod pob aelod o staff yn cynrychioli 1.7 pwynt canran, mae tystiolaeth glir o ostyngiad yn nifer y gweithwyr yn yr Ardd Fotaneg sy'n rhugl yn y Gymraeg, yn enwedig mewn swyddi uwch.

| | Islaw A1 | A1/A2 | B1/B2 | C1/C2 |
|------------|----------|-------|-------|-------|
| Siarad | 15% | 63% | 6% | 15% |
| Gwranddo | 9% | 62% | 10% | 19% |
| Darllen | 14% | 61% | 14% | 11% |
| Ysgrifennu | 23% | 57% | 13% | 7% |

Internal Signs

Where we put up signs in the workplace for staff, these are in Welsh as well as English, with the Welsh placed so that it is likely to be read first.

5 Welsh Language Skills: Employees

In-line with the Standards, staff were asked to rate their ability in speaking, listening, reading and writing Welsh using the Common European Framework of Reference for Languages. A summary of the results that were submitted, weighted for hours worked, is shown in the table below.

A1 is the least fluent, C2 the most fluent.

The results were based on the returns of 58 contracted staff, weighted by the number of hours worked. Despite each staff member representing 1.7 percentage points, there is clear evidence of a decline in the number of employees working at the BotanicGarden who are fluent in Welsh, particularly in senior positions.

| | Below A1 | A1/A2 | B1/B2 | C1/C2 |
|-----------|----------|-------|-------|-------|
| Speaking | 15% | 63% | 6% | 15% |
| Listening | 9% | 62% | 10% | 19% |
| Reading | 14% | 61% | 14% | 11% |
| Writing | 23% | 57% | 13% | 7% |

6 Sgiliau yn y Gymraeg: Swyddi Newydd a Rhai Gwag

Gwelir yn y tabl isod niferoedd y swyddi a gafodd eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn, yn ôl lefel y sgiliau Cymraeg angenrheidiol:

| | |
|---|----|
| Sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 2 |
| Angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth benodi i'r swydd | 0 |
| Sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 11 |
| Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol | 0 |

7 Cynnal Hyfforddiant Staff yn Gymraeg

Ni chafwyd dim ceisiadau yn ystod y flwyddyn i gael hyfforddiant yn y Gymraeg. Fodd bynnag, cynhaliwyd rhywfaint o hyfforddiant adrannol a sesiynau anffurfiol eraill yn Gymraeg.

8 Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Swyddog Cydymffurfiant yr Ardd Fotaneg yn:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Neuadd Middleton
Llanarthne,
Sir Gaerfyrddin SA32 8HG.

neu e-bost gruffydd.thomas@gardenofwales.org.uk.

Mae croeso ichi ysgrifennu yn Gymraeg neu yn Saesneg.

6 Welsh Language Skills: New and Vacant Posts

The numbers of posts advertised during the year, by level of Welsh language proficiency required, are shown in the table below:

| | |
|--|----|
| Welsh Language skills are essential | 2 |
| Welsh Language skills are needed to be learnt when appointed to the post | 0 |
| Welsh Language skills are desirable | 11 |
| Welsh Language skills are not necessary | 0 |

7 Staff Training Conducted in Welsh

No requests to receive training in Welsh were received during the year. However, some departmental training, and other informal sessions, were held in Welsh.

8 Further information

For further information, please contact the Botanic Garden's Compliance Officer at:

National Botanic Garden of Wales,
Middleton Hall,
Llanarthne,
Carmarthenshire SA32 8HG.

or e-mail gruffydd.thomas@gardenofwales.org.uk.

You are welcome to write in Welsh or English.

